# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 23 Mawrth 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymholiadau am fenthyciadau ac ecwiti a gafodd Cyllid Cymru er mis Medi 2008? (WAQ53744)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Gweler y tabl isod.

| Cyfnod | Ymholiadau |
|---|---:|
| Medi 08 | 82 |
| Hyd 08 | 80 |
| Tach 08 | 88 |
| Rhag 08 | 58 |
| Ion 09 | 106 |
| Chwe 09 | 97 |

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y buddsoddiadau mewn benthyciadau ac ecwiti a wnaeth Cyllid Cymru er mis Medi 2008? (WAQ53745)

| Cyfnod | Buddsoddiadau |
|---|---:|
| Medi 08 | 15 |
| Hyd 08 | 16 |
| Tach 08 | 12 |
| Rhag 08 | 18 |
| Ion 09 | 15 |
| Chwe 09 | 26 |

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru faint o ymholiadau am gymorth ariannol a wnaethpwyd i Gyllid Cymru er mis Ionawr 2008, gan gyhoeddi'r ffigurau ar gyfer bob mis? (WAQ53775)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gweler y tabl isod.

| Cyfnod | Ymholiadau |
|---|---:|
| Ion 08 | 97 |
| Chwe 08 | 123 |
| Maw 08 | 105 |
| Ebr 08 | 109 |
| Mai 08 | 81 |
| Mehefin 08 | 110 |
| Gorff 08 | 123 |
| Awst 08 | 72 |
| Medi 08 | 82 |
| Hyd 08 | 80 |
| Tach 08 | 88 |

| | |
|---|---|
| Rhag 08 | 58 |
| Ion 09 | 106 |
| Chwe 09 | 97 |

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru faint o geisiadau am gymorth ariannol a gymeradwywyd gan Cyllid Cymru er mis Ionawr 2008, gan roi'r ffigurau ar gyfer bob mis a gan roi dadansoddiad yn ôl benthyciad neu brynu ecwiti? (WAQ53776)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gweler y tabl isod.

| **Mis** | **Benthyciadau** | | **Ecwiti** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **£'000** | **Nifer** | **£'000** | **Nifer** | **£'000** |
| Ion-08 | 8 | 411 | 1 | 500 | 9 | 911 |
| Chwe-08 | 22 | 1,094 | 4 | 2,380 | 26 | 3,474 |
| Maw-08 | 28 | 2,612 | 4 | 2,260 | 32 | 4,872 |
| Ebr-08 | 15 | 419 | 0 | 0 | 15 | 419 |
| Mai-08 | 9 | 628 | 3 | 614 | 12 | 1,242 |
| Meh-08 | 13 | 526 | 2 | 250 | 15 | 776 |
| Gorff-08 | 24 | 4,541 | 0 | 0 | 24 | 4,541 |
| Awst-08 | 11 | 792 | 3 | 578 | 14 | 1,370 |
| Medi-08 | 13 | 1,291 | 2 | 430 | 15 | 1,721 |
| Hyd-08 | 15 | 1,674 | 1 | 300 | 16 | 1,974 |
| Tach-08 | 11 | 691 | 1 | 40 | 12 | 731 |
| Rhag-08 | 16 | 2,058 | 2 | 133 | 18 | 2,191 |
| Ion-09 | 14 | 1,417 | 1 | 55 | 15 | 1,472 |
| Chwe-09 | 21 | 2,825 | 5 | 440 | 26 | 3,265 |
| **Cyfanswm** | **220** | **20,979** | **29** | **7,980** | **249** | **28,959** |

**Jeff Cuthbert (Caerffili):** Pa brosiectau sydd wedi elwa o gyllid Cymunedau yn Gyntaf, fesul ward, ers i'r cynllun gael ei sefydlu? (WAQ53787)

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Byddai costau darparu'r wybodaeth hon yn afresymol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygiadau tyrbinau gwynt mewn Parciau Cenedlaethol yng Nghymru? (WAQ53785)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae polisi cenedlaethol yn cydnabod nad yw Parciau Cenedlaethol yn lleoliadau addas ar gyfer datblygu ffermydd gwynt ar raddfa fawr (dros 25MW) a chawsant eu heithrio'n benodol o unrhyw ystyriaeth fel rhan o'r gwaith o nodi'r Ardaloedd Chwilio Strategol yn TAN 8. Fodd bynnag, gallai Parciau Cenedlaethol fod yn lleoliadau addas ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa lai a ffermydd gwynt cymunedol. Byddai angen cymeradwyaeth ar gynigion datblygu o'r fath gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol yn yr achos cyntaf fel yr awdurdod cynllunio lleol, a byddai angen iddynt gael eu bodloni y byddai unrhyw ddatblygiad fferm wynt yn dderbyniol o safbwynt amgylcheddol a gweledol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o gyllid ychwanegol sydd ar gael i Gymru o ganlyniad i'r £13m a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn gan yr Adran Iechyd i ddatblygu gwasanaethau cyflenwol megis cwnsela ynghylch dyledion? (WAQ53781)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Nododd Llywodraeth y DU yr ariannwyd y gwaith o ddatblygu gwasanaethau cyflenwol gan yr Adran Iechyd drwy aildrefnu blaenoriaethau mewnol. Ni ddarparwyd cyllid ychwanegol ac felly, nid oedd arian i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ganlyniad i hyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r ffigurau ar gyfer cyfanswm cost presgripsiynau am ddim ar gyfer pob blwyddyn er 2007 a'r gost a ddisgwylir ar gyfer 2009/10 a 2010/11? (WAQ53758)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £29.5 miliwn i Fyrddau Iechyd Lleol i wneud yn iawn am golli'r incwm a amcangyfrifwyd o gost presgripsiynau yn 2008-2009. Yn 2004-05 rhoddwyd £14.7 miliwn a £9.8 miliwn yn 2006-2007. O 2008-09, gwnaed y cyllid yn un rheolaidd yn nyraniadau refeniw byrddau iechyd lleol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa ymateb a gyflwynir gan y Gweinidog i adolygiad cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd i Ardaloedd Llai Ffafriol? (WAQ53786)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae fy swyddogion wedi bod yn chwarae rhan lawn yn yr adolygiad ers ei sefydlu ac maent wedi mapio'r holl gynigion ac wedi ystyried yr effeithiau yng Nghymru. Hefyd, maent wedi llwyddo i ddarbwyllo'r Ganolfan Ymchwil ar y Cyd, sy'n cynghori'r Comisiwn, i gynnwys meini prawf dynodi sy'n fwy priodol i hinsawdd oer a gwlyb. Mae hyn wedi diogelu'r dynodiad Ardal Llai Ffafriol yng Nghymru ymhellach. Mae cynigion diweddaraf y Comisiwn yn dangos nad yw'r Ardal Llai Ffafriol yn debygol o newid yn sylweddol yng Nghymru. Fodd bynnag, disgwyliwn gynigion pellach gan y Comisiwn yn y misoedd i ddod mewn perthynas â'r meini prawf dynodiad a'r meini prawf cymhwyster ar gyfer taliadau cynllun a bydd fy swyddogion yn parhau i graffu'r cynigion.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer y busnesau ledled Cymru yr effeithir arnynt yn sgil y cynnydd o 4.9% yn y gyfradd fusnes unffurf yn 2009/10? (WAQ53771)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Effeithir ar bob eiddo busnes sy'n atebol i dalu ardrethi. (amcangyfrif o 80,000).

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r refeniw a gynhyrchir gan fusnesau Cymru yn ystod y flwyddyn 2009/20 oherwydd y cynnydd o 4.9% yn y gyfradd fusnes unffurf? (WAQ53772)

**Brian Gibbons:** Mae gan y Lluosydd Ardrethi Annomestig ar gyfer 2009-2010 yng Nghymru, fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn unol â deddfwriaeth sylfaenol wedi'i sefydlogi i fynegai prisiau manwerthu mis Medi. Os caiff y lluosydd adrethi busnes ei gynyddu llai na hyn, byddai rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ariannu'r diffyg o £40 miliwn a amcangyfrifwyd eleni a blynyddoedd canlynol gan na ellir cynyddu'r lluosydd yn y dyfodol i wneud iawn am gynnydd llai mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, os bydd y mynegai prisiau manwerthu nesaf yn troi'n negatif, caiff y lluosydd ei leihau'n unol â hynny.